

Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2016/17

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

Cynghorydd: Gwilym O Jones
Grwp: Annibynnol

Ward: Llifton

1 - Rôl a Chyfrifoldebau

'Rwyf yn aelod o'r Grwp Cynnydd Ysgolion Ynys Môn sy'n ceisio gwella gwybodaeth Aelodau etholedig o'r heriau sy'n wynebu ysgolion yr Awdurdod.

'Rwyf yn mynychu Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd.

Mynychais Wasanaeth Boreol yn Ysgol Pencarnisiog fel rhan o'm cyfrifoldebau fel aelod o'r Cyngor Sefydlog ar Addysg Grefyddol.

Yn rhinwedd fy swydd fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, bûm yn cadeirio panel i ymchwilio pam fod oedi gyda gosod Tai Cyngor yn yr Awdurdod.

Bûm yn aelod o banel a oedd yn cyfarfod yn fisol i drafod goblygiadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd.

Bûm yn aelod o bwyllgorau fel y gwelir isod, a bûm yn mynychu sesiynau briffio a hyfforddiant.

Rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:	¹Ffigyrau Presenoldeb
Cyngor	8 (89%)
Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (Is-Gadeirydd)	11 (100%)
Is-Bwyllgor Indemniadau	Dim cyfarfodydd
Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig	3 (75%)
Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)	3 (100%)
Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel ddeilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrrf allanol, er enghraifft.	

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 4 cyfarfod (100%). Rwyf hefyd yn Is-Gadeirydd Is-Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth.

¹ Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Yn ystod y flwyddyn cychwynnwyd ar y gwaith o ail-wynebu'r brif lain lanio ym Maes Awyr y Fali a chyda'm cyd aelod, mynychais gyfarfodydd gydag Uwch Swyddogion y Llu Awyr a'r Cyngor Sir i drafod eu cynlluniau. Mynychwyd cyfarfodydd hefyd gyda thrigolion lleol sy'n byw ar Lôn Cymyran i geisio lliniaru eu pryderon o safbwynt diogelwch y ffyrdd gyda'r lorïau trymion a fyddai'n teithio ar hyd y ffordd wledig hon.

Byddaf yn mynychu Neuadd Bentref Rhosneigr bob bore Sadwrn, a'r Llyfrgell leol ar brynhawn Mercher er mwyn trafod amrywiol bynciau.

'Rwy'n aelod o Gyngor Cymuned Llanfair yn Neubwll, ac yn mynychu cyfarfodydd Cyngorau Llanfaelog a'r Fali yn fisol fel sylwedydd.

'Rwyf yn aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Bodedern ac o Is-Bwyllgor Staffio'r Corff. Yn yr un modd, 'rwy'n aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol y Fali.

3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Bûm yn aelod o ddau bwyllgor apêl Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2017, yn ardaloedd y Fali a Llanynghenedl, a Phencarnisiog. Llwyddwyd i gyrraedd y nôd ariannol yn y ddwy ardal.

'Rwy'n gadeirydd Papur Bro 'Y Rhwyd' sy'n gweithredu yng Ngorllewin Môn.

'Rwy'n gadeirydd Pwyllgor Rheoli Neuadd Bentref Caergeiliog.

4 - Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

Sesiwn Gwybodaeth Sipsiwn a Theithwyr	16/06/2016
Sesiynau Briffio Aelodau (20 allan o 23 = 87%)	Ebrill 2016 – Mawrth 2017

5 – Gweithgareddau a Materion Eraill

'Rwyf wedi parhau i ddelio ag amryw o faterion lleol yn ôl y galw, gan gynnwys materion traffig, cyflwr y lonydd, biniau, tai, gofal yr henoed a rhai ceisiadau cynllunio cynhennus.

Bûm yn bresennol mewn sesiynau rhannu gwybodaeth gan gwmni Horizon am Wylfa Newydd yng ngwesty'r Fali, a chael cyfle i drafod rhai materion oedd yn peri pryder i'r boblogaeth leol gyda rhai o gynrychiolwyr y Cwmni

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

<http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=31&LLL=1>

Y Cyngorydd Gwilym O Jones	Ebrill 2017
----------------------------	-------------